



**DIOGELU A THREFNIADAU DIOGELU  
RHAG COLLI RHYDDID**



# BETH YW DIOGELU A THREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID?

## DIOGELU

Mae hwn yn derm cyffredinol a roddir i weithredu a chodi ymwybyddiaeth i helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod. O dan ganllawiau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) mae oedolyn agored i niwed yn oedolyn hŷn na 18 nad yw'n gallu diogelu ei hunan ac y mae angen gwasanaethau arno. I ddechrau'r broses POVA byddai rhaid cael tystiolaeth bod oedolyn agored i niwed yn destun camddefnyddio ymddiriedaeth. Mae'n ofynnol gan POVA fod 'na gyflawnwr. Nid yw hyn yn golygu bod y cyflawnwr o anghenraid yn ymwybodol na maleisus yn ei fwriad. Er enghraifft, gallai gofalwr fod yn gwneud ei orau ond mae heb gael digon o hyfforddiant. Nid yw achosion o hunanesgeulustod ar hyn o bryd yn dod o dan gylch gwaith POVA nac ychwaith achosion lle mae risg uchel oherwydd eu cymhlethdod.

Fodd bynnag, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae 'Oedolyn mewn Perygl' wedi disodli'r term 'oedolyn agored i niwed', mae hyn yn gostwng y drothwy yn sylweddol ar gyfer ymyriad gan wasanaethau cymdeithasol. Mae oedolyn mewn perygl:

- yn dioddef neu mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod
- y mae anghenion gofal a chymorth arno (a yw'r awdurdod yn ateb unrhyw un o'r anghenion hynny neu beidio), ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu diogelu ei hunan rhag cam-drin neu esgeulustod neu'r perygl ohono.

Mae'r pwyslais wedi symud i ffwrdd o 'gamddefnyddio ymddiriedaeth' i gynnwys hunanesgeulustod a chydabyddiaeth fod rhywun mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ac nid yw o anghenraid yn agored i gam-drin ac esgeulustod ar yr adeg honno. Mae hyn yn adlewyrchu pwyslais y Ddeddf ar bwysigrwydd atal mewn trefniadau diogelu.

Un o'r heriau sy'n wynebu timau diogelu ar hyn o bryd yw sut i integreiddio'r ddau ddiffiniad i fodel gweithio. Pan gaiff oedolyn mewn perygl ei adnabod, mae dyletswydd i wneud ymholiadau o fewn 7 diwrnod gwaith. Mae gan y broses POVA amserlenni a disgwyliadau clir hefyd.



Mae POVA fwy neu lai yn ymateb i honiad o gam-drin tra bod y broses oedolyn mewn perygl yn ymwneud ag atal, adnabod ac ymateb yn gyflym i bobl mewn sefyllfa agored i niwed. Nid oes rheswm pam na all y ddwy broses weithio ochr yn ochr gyda'i gilydd. Yn anochel bydd gorgyffwrdd a bydd atgyfeiriadau POVA'n cael eu creu trwy'r broses oedolyn mewn perygl pan fo'n briodol.

## TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID

---

Nid yw'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) ond yn berthnasol i bobl sydd mewn cartref gofal neu ysbyty. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb y galluedd meddyliol i wneud hynny drostynt hwy eu hunain. Yn 2007, cyflwynwyd y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i ddarparu fframwaith cyfreithiol i atal torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dilyn dyfarniad 'Bournewood'.

Ar 19 Mawrth 2014, roedd y Goruchaf Lys wedi traddodi dyfarniad yn achos "P v Cheshire West & Cheshire Council". I bennu a yw unigolyn wedi'i amddifadu'n wrthrychol o'i ryddid, mae'r Goruchaf Lys bellach wedi cadarnhau bod 'na ddau gwestiwn allweddol i'w hateb, sy'n cael eu disgrifio fel y 'prawf asid':

- ▶ Mae hyn bellach yn golygu os yw unigolyn yn destun goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ac nid yw'n rhydd i adael mae wedi'i amddifadu o'i ryddid. Mae hyn wedi cynyddu nifer yr atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ddengwaith.

---








Mae'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn parhau i fod yn faes anodd i gynllunio ar ei gyfer oherwydd cyfeiriad y cyngor sy'n cyson newid yn dilyn cyfraith achos a diwygiadau arfaethedig i'r system. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel targed sy'n symud ac mae adnoddau digonol yn ofynnol ar gyfer y broses i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith fel nad yw pobl yn cael eu hamddifadu'n anghyfreithlon o'u rhyddid a bod amddifadu yn briodol a chymesur. Mae ein fforwm rhanbarthol Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn amcangyfrif y dylai asesiad budd gorau gymryd 11 awr ar gyfartaledd, mae awdurdodi yn cymryd 3 awr. Wrth ystyried cost meddyg Adran 12 a chostau gweinyddol, cyfreithiol a'r Eiriolwr Annibynnol o Ran Galluedd Meddyliol, mae hyn yn broblem sylweddol o ran adnoddau i unrhyw awdurdod ac un sydd yn aml heb ddarpariaeth ddigonol.

---



---

Ers cyhoeddi Mewn Dwylo Diogel: Gweithredu Gweithdrefnau Amddiffyn yng Nghymru yn 2000 prif gyfrifoldeb strategol Awdurdodau Lleol yw amddiffyn oedolion, gan gynnwys:

-  Adnabod ac atal cam-drin.
-  Sicrhau bod staff yn derbyn digon o hyfforddiant er mwyn rheoli atgyfeiriadau a chynnal ymchwiliadau.
-  Cydlynu'r broses gynllunio, ymchwilio a chynadledda achos.
-  Cwblhau pob gweithred y cytunwyd arno gan yr asiantaeth mewn Cynlluniau Amddiffyn Unigol.
-  Sicrhau bod asiantaethau sydd wedi cytuno i weithredoedd mewn Cynlluniau Amddiffyn Unigol yn cyflawni'r rhain.
-  Sicrhau bod y dioddefwr honedig a'i deulu a'i ofalwyr yn cael eu hysbysu'n llwyr ac yn cael eu cynnwys trwy gydol y prosesau amddiffyn oedolion gymaint ag sy'n bosibl ac yn briodol.
-  Sicrhau ôl-ofal a chymorth i ddioddefwyr cam-drin.

---

Disodlwyd Mewn Dwylo Diogel gan Bolisi a Gweithdrefnau Interim Cymru Ar Gyfer Amddiffyn Oedolion i Niwed (2013) sydd erbyn hyn yn ganllaw ar gyfer rheolaeth amddiffyn oedolion yng Nghymru.





## PWY SY’N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

### — DIOGELU PLANT A PHOBL IFANC

Mae diogelu yn derm sy’n ehangach nag ‘amddiffyn plant’ ac mae’n ymwneud â’r camau a gymerir i hyrwyddo lles plant a’u hamddiffyn rhag niwed.

Cyfrifoldeb pawb yw diogelu. Mae gan unrhyw un sy’n gweithio gyda phlant neu oedolion gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch unrhyw un yr ystyrir ei fod/ei bod yn agored i niwed y maen nhw’n dod i gyswllt â nhw yn ystod eu gwaith, ac i gymryd camau trwy siarad â’u harweinydd diogelu neu drwy wneud atgyfeiriad.

Mae’r trefniadau, y gweithdrefnau a’r systemau diogelu ‘corfforaethol’ cadarn sydd ar waith ar draws yr ardal, yn cael eu goruchwyllo a’u monitro gan Fwrdd Diogelu Plant Bae’r Gorllewin.

### — TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID A PHOBL IFANC

Roedd Dyfarniad y Goruchaf Lys yng Ngorllewin Swydd Gaer (2014) hefyd yn ymwneud â 2 achos:

- 🛡️ MIG (18 oed) yn cael ei leoli gyda theulu maeth.
- 🛡️ MEG (17 oed) sydd mewn cartref preswyl bach.

Mae ganddynt anabledau dysgu cymedrol/difrifol. Mae’r ddau o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus, ar gyfer eu gofal eu hunain, ac nid oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau am eu trefniadau gofal a’u cartref.

Pan fydd plant yn cyrraedd 16 oed, rhagdybir eu bod yn alluog yn ôl y gyfraith. Mewn sawl ffordd, dylid eu trin fel oedolion sy’n gallu rhoi cydsyniad ar gyfer eu gofal a’u triniaeth eu hunain, a gwrthod help, gan gynnwys derbyniad i’r ysbyty.


Lle y bo’n bosibl, mae teuluoedd neu ofalwyr yn cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau lle ceisir caniatâd plentyn neu berson ifanc.



Os nad oes gan blentyn y gallu i roi caniatâd, efallai y bydd yn cael ei drin heb ganiatâd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) ar yr amod nad yw'r driniaeth yn cynnwys colli rhyddid.

Mae'n debyg y bydd defnydd cynyddol o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i sicrhau lles gorau y person ifanc yn ôl y gyfraith, ac o fewn eu trefniadau gofal a chymorth.

Os honnir bod oedolyn agored i niwed yn cael ei gam-drin, neu mae achos yn cael ei ddatgelu neu ei amau, gall atgyfeiriad gael ei wneud i'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd neu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Os nad oes unrhyw berygl corfforol uniongyrchol ac nid yw unrhyw drosedd yn cael ei hamau, mae Tîm POVA'n cynnal gwerthusiad cychwynnol. an initial evaluation is undertaken by the POVA Team.


	Nifer yr atgyfeiriadau/pryderon a gafwyd oedd wedi diwallu'r drothwy niwed sylweddol		Nifer yr atgyfeiriadau/pryderon a gafwyd nad oedd wedi diwallu'r drothwy niwed sylweddol		Nifer yr atgyfeiriadau amhriodol a gafwyd	
	2013 - 2014	2014 - 2015	2013 - 2014	2014 - 2015	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	395	185	235	240	>5	>5
Castell-nedd Port Talbot	230	245	125	35	15	10
Abertawe	730	555	620	460	60	40
Bae'r Gorllewin	1,355	985	980	735	<75	<50

Mae proses POVA yn strwythuredig iawn ac mae'n gweithio trwy gyfarfodydd strategaeth ffurfiol ac amlasiantaethol. Mae POVA ar gyfer achosion risg uchel a chymhleth.




Isod mae dadansoddiad o ddata a gasglwyd gan bob Awdurdod Lleol ac a adroddwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwahanol gategoriau o gam-drin honedig.


**▼ HONEDIG DIODDEFWYR CAM-DRIN**




**▼ HONEDIG DIODDEFWYR CAM-DRIN CORFFOROL**



▼ HONEDIG DIODDEFWYR CAMDRINIAETH RHYWIOL




▼ HONEDIG DIODDEFWYR CAM-DRIN EMOSIYNOL / SEICOLEGOL






▼ HONEDIG DIODDEFWYR CAM-DRIN ARIANNOL




▼ DDIODDEFWYR HONEDIG O ESGEULUSTOD



Mae honiadau o gam-drin domestig hefyd yn cael eu cofnodi gan y rhai sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol ond nid oes llawer o ddata wedi'u cofnodi ar gyfer yr categori hwn ar draws Bae'r Gorllewin. Yn yr un modd hefyd, dylid cofnodi digwyddiadau o gam-drin hiliol ond nid oes gwybodaeth am hyn ym Mae'r Gorllewin o 2012-2014. Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin wedi cydnabod bod angen codi mwy o ymwybyddiaeth ynghylch y materion hyn ymysg staff a'r cyhoedd. Mae timau POVA ar draws Bae'r Gorllewin bellach wedi dechrau cofnodi'r data hyn, ac felly bydd yr wybodaeth hon ar gael yn y dyfodol.

**ANIFER YR ATGYFEIRIADAU TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID A DDERBYNIWYD YM MAE'R GORLLEWIN**

	2013 - 2014	2014 - 2015	2015 - 2016
Pen-y-bont ar Ogwr	12	325	443
Castell-nedd Port Talbot	7	448	706
Abertawe	33	1076	938
Bae'r Gorllewin	52	1849	2087

Cydnabyddwyd bod nifer yr atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ar draws ardal Bae'r Gorllewin wedi cynyddu'n sylweddol ers dyfarniad "P v Cheshire West and Cheshire Council" ar 19 Mawrth 2014. Er bod cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei dderbyn mae nifer sylweddol lai o adnoddau i ateb y galw presennol.



Mae'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi cael eu beirniadu ers iddynt gael eu cyflwyno am fod yn orgymhleth ac yn eithafol o fiwrocraataidd. Ym mis Mawrth 2014, roedd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi wedi cyhoeddi adroddiad manwl gan ddod i'r casgliad nad oedd y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn "addas at y diben" ac argymhellwyd y dylid eu hadolygu a'u disodli. Nod adolygiad y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yw symleiddio'r weithdrefn ac ymestyn trefniadau diogelu i leoliadau y tu hwnt i gartrefi gofal ac ysbytai, fel byw â chymorth a llety gwarchod gofal ychwanegol. Mae adroddiad terfynol gydag argymhellion a Bil drafft i fod i gael ei gyhoeddi ym Mawrth 2017.



## **PWY SY'N CAEL HELP A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?**

---

Mewn rhai achosion diogelu gwneir atgyfeiriadau i Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol ond fel rheol gwneir hyn ar ôl i'r cam-drin ddigwydd.

Mae'r tîm POVA yn monitro lles y bobl mewn cartrefi gofal ond nid ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gydag oedolion agored i niwed yn ystod y broses POVA. Ar ddiwedd y broses POVA mae cynadleddau achos yn cael eu cynnig i'r teulu a'r dioddefwyr cam-drin i sicrhau bod hawliau'r unigolyn wedi cael eu hystyried a'r camau wedi'u cytuno i wella eu sefyllfa.

Ar hyn o bryd, mae'r broses POVA yn mesur nifer y canlyniadau ond mae'r rhain yn cael eu hystyried yn dechnegol iawn ac nid ydynt yn ymwneud â chanlyniadau personol yr unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth. Nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith i wella hyn.

---





## PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAID I NI GYNLL-UNIO AR EU CYFER?

Mae'n anodd rhagfynegi'r galw am wasanaethau diogelu yn y dyfodol oherwydd mae gwahanol fathau o gam-drin yn parhau i ddod i'r amlwg megis: masnachu pobl, radicaleiddio, trosedd casineb a throseddau cyfeillio. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau y gall gwasanaethau eu disgwyl, megis y boblogaeth sy'n heneiddio ym Mae'r Gorllewin sy'n dangos bod y galw am fwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac atgyfeiriadau Oedolyn mewn Perygl hefyd yn cynyddu.

- ▶ O ystyried capasiti a hinsawdd bresennol cyfyngiadau ariannol bydd yn hanfodol parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar sy'n rhoi modd i bobl aros yn ddiogel, annibynnol ac yn byw yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned. Mae'n bwysig gwella ansawdd bywyd pobl mewn cartrefi gofal hefyd.

Mae angen archwilio sut y gellir uno'r ddau fframwaith 'Oedolyn mewn Perygl' ac 'Oedolyn Agored i Niwed' i weithio'n effeithiol.

Mae'r galw presennol am Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi cynyddu ychydig er 2013-2014 a'r dyfarniad "P v Cheshire & Cheshire West". Mewn gwirionedd, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot ôl-groniad o asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid sy'n aros i gael eu cwblhau. Fodd bynnag, mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnig newid o ran sut mae Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fydd hyn yn fwy neu lai effeithiol.


Parhau i weithio i hyrwyddo dyfarniad a dadansoddiad cadarn yn ymarferol a dysgu gwersi o achosion a ddaw i'r maes diogelu. Rhaid i ni barhau i weithio ar ffordd amlasiantaethol i hyrwyddo atal ar draws pob maes gwasanaeth.

Mae angen symleiddio mynediad i eiriolwyr ar gyfer oedolion mewn perygl. Gellid gwneud gwaith pellach i archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu eiriolwr ym mhob maes a allai weithio gyda phob preswlydd mewn nifer dynodedig o gartrefi gofal. Mae angen rhagor o wasanaethau eirioli yn gyffredinol.

Gallai rhagor o ffoaduriaid o Syria sy'n ymgartrefu yn yr ardal gael effaith ar y galw am y gwasanaeth.

Cydnabyddwyd bod angen gwneud rhagor o waith i nodi canlyniadau personol y rhai sydd wedi mynd trwy'r broses POVA.





# **WESTERN BAY**

## **POPULATION ASSESSMENT REPORT**

[www.westernbay.org.uk](http://www.westernbay.org.uk)